| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y Cyngor** |
| **DYDDIAD** | **15 Rhagfyr 2011** |
| **TEITL** | **GORCHYMYN MANNAU CYHOEDDUS DYNODEDIG SY'N YMWNEUD AG YFED ALCOHOL YM METHESDA, GERLAN A PHARC MEURIG** |
| **AWDUR** | **Catherine Roberts**<br>**Yr Uned Diogelwch Cymunedol** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Y CYNGHORYDD JOHN WYN WILLIAMS** |

**1. Nod yr Adroddiad:**

Nod yr adroddiad yw cyflwyno argymhelliad i greu Gorchymyn Mannau Cyhoeddus Dynodedig ym Methesda, Gerlan a Pharc Meurig. Mae tystiolaeth wedi'i chasglu gan Heddlu Gogledd Cymru a chan bobl leol sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal.

**2. Cefndir:**

DEDDF CYFIAWNDER TROSEDDOL A'R HEDDLU 2001 – YFED ALCOHOL MEWN MANNAU CYHOEDDUS

Ar 1 Medi 2001, daeth adrannau 12 – 16 Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu i rym. Rhydd hyn bŵer i awdurdodau lleol fabwysiadu cyfyngiadau ar yfed gwrthgymdeithasol mewn mannau cyhoeddus dynodedig ac fe rydd bŵer i'r heddlu orfodi'r cyfyngiadau hyn.

Dylid defnyddio'r pŵer hwn yn benodol i fynd i'r afael â niwsans neu flinder sy'n gysylltiedig ag yfed alcohol mewn man cyhoeddus. Cyflawnir trosedd os bydd unigolyn yn gwrthod â chydymffurfio â chais heddwas i roi'r gorau i yfed yn yr ardaloedd hynny. Mae llunio gorchymyn o'r fath yn fater i'r Cyngor Sir.

Mae'r ardal arfaethedig, fel sydd wedi'i nodi ar y map ynghlwm, wedi'i llunio yn dilyn trafodaethau â phartneriaid, ac wedi'i chefnogi gan dystiolaeth a gafwyd gan Heddlu Gogledd Cymru. Dyma'r ardal sy'n destun yr ymgynghoriad.

Mae'r broses a ddilynwyd er mwyn cyflwyno'r argymhelliad hwn yn cynnwys ymgynghori â'r cyhoedd a phobl broffesiynol. Ymgynghorwyd yn uniongyrchol ag aelodau'r cyhoedd yn ardal Bethesda, deiliaid trwydded yn yr ardal a effeithir, Cyngor Cymuned Bethesda, Cyngor Cymuned Llandygai, Heddlu Gogledd Cymru a Phartneriaid Diogelwch Cymunedol eraill.

Mae ymgynghori statudol wedi digwydd, drwy gyfrwng rhybudd o fwriad statudol, a ni chafwyd unrhyw ymatebion iddo.

**3. Amcan:**

Amcan y Gorchymyn yw lleihau nifer y digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol o fewn yr ardal ddynodedig.

Mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol wedi cael tystiolaeth o drosedd ac anrhefn yn yr ardal gan Heddlu Gogledd Cymru a chredir bod y digwyddiadau hyn yn gysylltiedig ag alcohol.

Mae Heddlu Gogledd Cymru o'r farn y bydd y gorchymyn hwn yn fanteisiol iddynt hwy yn eu hymdrechion i leihau nifer y digwyddiadau o drosedd, anrhefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol.

**4. Y dystiolaeth sydd ar gael:**

Rhwng 01/01/2009 a 09/08/2011, adroddwyd am 110 o ddigwyddiadau'n gysylltiedig ag alcohol ym Methesda a Pharc Meurig – roedd y digwyddiadau hyn yn amrywio o fod yn feddw ac afreolus; digwyddiadau trefn gyhoeddus yn cynnwys ymladd mewn mannau cyhoeddus; a difrod troseddol.

Dengys adroddiad arall a gafwyd gan Heddlu Gogledd Cymru bod 52 achos o atafaelu alcohol wedi digwydd rhwng 24/01/2009 a 04/09/2009. Noda Heddlu Gogledd Cymru nad yw gwybodaeth ynghylch achosion o atafaelu alcohol yn cael ei storio yn eu cronfa ddata erbyn hyn (o fis Medi 2009 ymlaen); fodd bynnag, cadarnhaodd Heddlu Gogledd Cymru eu bod yn parhau i atafaelu alcohol gan bobl ifanc dan oed ym Methesda.

Awgryma tystiolaeth anecdotaidd o'r ardaloedd eraill sydd â gorchmynion tebyg yn eu lle (Bangor, Caernarfon a Phorthmadog), bod llai o drosedd ac anrhefn yn gysylltiedig ag alcohol yn digwydd pan fo'r fath orchmynion yn eu lle.

**5. Lleoliad Daearyddol:**

Y lleoliad mwyaf cyffredin ar gyfer y digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol yw'r Stryd Fawr, gyda chyfanswm o 73 digwyddiad. Mae'r Heddlu wedi nodi bod rhai digwyddiadau yn lledaenu i strydoedd cyfagos, fel sydd wedi'i amlinellu ar y map.

**6. Safbwyntiau lleol:**

Mae Cyngor Cymuned Bethesda a Chyngor Cymuned Llandygai wedi mynegi eu cefnogaeth i'r gorchymyn. Yn ogystal, trefnwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn yr ardal. Roedd y pryderon a nodwyd yn cynnwys achosion o yfed alcohol ar strydoedd Bethesda, Gerlan ac ym Mharc Meurig sy'n:

- i) Arwain at Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- ii) Dinistrio prydferthwch naturiol Parc Meurig
- iii) Creu delwedd ddigroeso yn yr ardal

iv) Arwain at ddirywiad cyffredinol yn niogelwch y cyhoedd (gwydr wedi torri ac ymddygiad bygythiol)

Ni fynegwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig yn ystod yr ymgynghoriad.

**7. Casgliadau:**

Felly, argymhellir y dylid creu'r Gorchymyn yn yr ardaloedd a ganlyn ym Methesda, Gerlan a Pharc Meurig (gweler yr ardaloedd hyn ar y cynllun sydd ynghlwm hefyd):

Cae Rygbi Dôl Dafydd, rhan o lwybr cyhoeddus Pont Sarnau (o Lôn Sarnau i fyny at Bont Sarnau), Lôn Sarnau, y Clwb Rygbi ac ardal yr Hen Orsaf a Ffordd y Stesion. Yna, bydd y gorchymyn yn ymestyn ar hyd y Stryd Fawr o fynedfa Ffordd y Stesion i fyny at Ffatri Austin Taylor, a bydd yr ardal hefyd yn cynnwys Glanrafon, Cae Star, Stryd John a Pharc Meurig. Yn ogystal, mae Ysgol Dyffryn Ogwen wedi gwneud cais i'r Gorchymyn gynnwys eu tir hwy, ac mae Plas Ffrancon wedi gwneud cais i'r un perwyl. Bydd hefyd yn cynnwys Bryn Coetmor, Canolfan Cefnfaes, Bryntirion, Llyfrgell Bethesda a Rhes Mostyn. O ganol y Stryd Fawr, bydd yn ymestyn draw dros Allt Pen y Bryn (i fyny hyd at y gylchfan), Pant Glas, Eglwys Glanogwen, Capel Jerusalem, Adwy'r Nant, Maes Garnedd, Garneddwen, Glanogwen, Llawr y Nant, Abercaseg, Bryn Abercaseg a Ffordd Abercaseg. Yn Gerlan, bydd yn ymestyn dros Ffordd Newydd Gerlan, Stryd Fer, 'Rallt Isaf, Stryd y Ffynnon a Stryd Goronwy.

**8. Argymhelliad:**

Bod y Cyngor yn caniatáu creu Gorchymyn Mannau Cyhoeddus Dynodedig ym Methesda, Gerlan a Pharc Meurig.